

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU

CATEGORI

ANSAWDD A DIOGELWCH / LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Diwygio'r Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol

Dyddiad dod i ben / adolygu: Mehefin 2022

I'w weithredu gan:

Yr holl sefydliadau sy'n darparu gofal a
ariennir gan y GIG

Gweithredu erbyn: Camau i'w
gweithredu o 1 Mehefin 2021

Anfonwr: Andrew Evans, y Prif Swyddog Fferyllol

**Enw(au) cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth
Cymru:**

Dogfen(nau) atodedig: Llythyr

Prif Swyddog Fferyllol Chief Pharmaceutical Officer



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Mai 2021

Annwyl Gydweithwyr,

Diwygio'r Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol

Roedd Cylchlythyr y Gwasanaeth Iechyd 1998/056 yn ei gwneud yn ofynnol i gerdyn triniaeth steroid safonol gael ei gario gan gleifion yr oedd triniaeth steroid wedi'i ragnodi iddynt (oedolion a phlant). Mae angen y cerdyn oherwydd bod triniaeth gyda chorticosteroidau systemig yn atal yr ymatebion adrenal ac imiwnedd. Mae nifer o ganlyniadau difrifol posibl i hyn, gan gynnwys argyfwng adrenal os caiff triniaeth steroid ei hatal yn sydyn neu os oes rhyw straen ffisiolegol arall, neu haint llethol.

Mewn ymateb i bryderon am niwed i gleifion oherwydd oedi wrth roi diagnosis a thriniaeth ar gyfer diffyg ac argyfwng adrenal, mae'r cerdyn triniaeth steroid cenedlaethol wedi'i ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth i ymarferwyr gofal iechyd am driniaeth frys ar gyfer argyfwng adrenal yn oedolion a phlant.

Pwy ddylai gael cerdyn triniaeth steroid?

Ar sail canllawiau gan weithgor arbenigol¹ dylid rhoi cerdyn triniaeth steroid i gleifion sy'n derbyn glwccorticoidau alldarddol sy'n wynebu risg o ddiffyg adrenal. Y diffiniad o hyn yw pob claf sy'n cael:

- Cyrsiau hirdymor (h.y. tair wythnos neu ragor) o glwccorticoidau mewn dos sy'n cyfateb i prednisolone 5mg neu sy'n uwch na hynny.
- Tri neu ragor o gyrsiau byr o glwccorticoidau dos uchel a roddir drwy'r geg, o fewn y 12 mis diwethaf ac am 12 mis ar ôl stopio.
- Tri neu ragor o bigiadau mewn cymal neu gyhyr o fewn y 12 mis diwethaf, ac am 12 mis ar ôl stopio.

¹ Erskine D & Simpson H (on behalf of Specialist Pharmacy Service & Society for Endocrinology). Exogenous steroids, adrenal insufficiency and adrenal crisis – who is at risk and how should they be managed safely. 2021.
https://www.endocrinology.org/media/4030/spssfe_supporting_sec_final_hls-19022021-2-1.pdf

- Cyrsiau wedi'u hailadrodd o dexamethasone fel gwrthemetig mewn cyfundrefn oncoleg, ac am 12 mis ar ôl stopio (dylid rhoi cerdyn steroid yng nghylch cyntaf dexamethasone) pan ragwelir cylchoedd yn y dyfodol.
- Cyrsiau hir o dexamethasone (>10 diwrnod) ar gyfer trin COVID-19
- Steroidau a fewnanadlir >1000microgram y dydd o beclometasone neu >500microgram y dydd o fluticasone (neu ddos cyfatebol o glwocorticoid arall), ac am 12 mis ar ôl stopio.
- Defnyddio steroidau a fewnanadlir (beclometasone fel cyffur amherchnogol, Clenil, Easihaler neu Soprobec) ≥800microgram y dydd; beclometasone fel Qvar, Kelhale neu Fostair ≥400microgram y dydd; budesonide ≥400microgram y dydd; ciclesonide ≥320microgram y dydd; fluticasone ≥400microgram y dydd; mometasone ≥400microgram y dydd) a mathau eraill o driniaeth glwocorticoid (gan gynnwys glwocorticoidau croen cryf neu gryf iawn, pigiad mewn cymal, glwocorticoidau rheolaidd drwy'r trwyn).
- Glwocorticoidau croen dos-uchel cryf neu gryf iawn (≥200g/yr wythnos) ar draws rhan fawr o'r croen am bedair wythnos neu fwy, neu ffactorau sy'n cynyddu amsugno a gaiff eu hasesu fesul achos, ac am 12 mis ar ôl stopio.
- Glwocorticoidau cryf neu gryf iawn a roddir yn ardal y rectwm neu'r genitalia a'u defnyddio ar ddos uchel (mwy na 30g y mis) am fwy na phedair wythnos, ac am 12 mis ar ôl stopio.
- Clefion y rhagnodir unrhyw fath o driniaeth glwocorticoid barhaus iddynt (ac eithrio symiau bach o glwocorticoid ysgafn neu gymedrol i'r croen y dylid eu hasesu fesul achos) ar y cyd â meddyginiaethau y gwyddir eu bod yn atalwyr CYP 3A4 cryf (e.e. atalwyr protease, gwrthff yngau (itraconazole, ketoconazole, voriconazole, posaconazole), cwrs hirdymor o clarithromycin).

Cyfrifoldeb y Sawl sy'n Rhagnodi ac yn Gweinyddu

Cyfrifoldeb y sawl sy'n rhagnodi ac yn gweinyddu (fferyllydd neu feddyg fferyllol) yw rhoi cerdyn triniaeth steroid, lle bo'n briodol, dan yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod, a thrafod ei ddiben gyda'r claf. Dylai clefion y rhagnodir steroidau iddynt gael digon o wybodaeth am y driniaeth arfaethedig, y dewisiadau amgen posibl ac unrhyw risgiau sylweddol. Dylai'r sawl sy'n rhagnodi ac yn gweinyddu esbonio'r cyfarwyddiadau ar y cerdyn triniaeth steroid wrth roi un i'r claf.

Gall Cerdyn GIG Argyfwng Therapi Steroid Oedolion cael ei ddarparu yn ychwanegol, ond nid yn lle'r, Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol.

Sut i gael copïau o'r cerdyn newydd

Mae copïau o'r cardiau ar gael ar ffurf dogfen gludadwy (pdf) ar [wefan](#) Cymdeithas Endocrin a Diabetes Cymru. Mae sganio'r cod QR ar y Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol yn galluogi clefion i lawrlwytho copïau electronig o'r Cerdyn Triniaeth

Steroid Cenedlaethol a'r Cerdyn Argyfwng Therapi Steroid Oedolion ar eu dyfais symudol, megis ffôn neu dabled.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Andrew Evans". The signature is written in a cursive style with a large initial 'A' and 'E'.

Andrew Evans
Y Prif Swyddog Fferyllol